Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES


# Adroddiad blynyddol

## 2020 i 2021

Hawdd ei Ddarllen

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Amdanom ni | 4 |
| Delio â chwynion | 6 |
| Cwynion am wasanaethau cyhoeddus | 7 |
| Cwynion am bobl sydd wedi cael eu hethol | 10 |
| Cyflawni pethau yn brydlon | 12 |
| Helpu gwasanaethau i wella | 13 |
| Gofalu am ein harian yn gywir | 15 |
| Am fwy o wybodaeth | 17 |


Yn y ddogfen hawdd ei darllen hon, mae geiriau anodd mewn **print trwm**. Rydym yn egluro ystyr y geiriau hyn yn y frawddeg ar ôl iddyn nhw gael eu defnyddio.




Mae rhai geiriau yn las ac wedi eu tanlinellu. Mae'r rhain yn ddolenni a fydd yn mynd i wefannau eraill sydd â mwy o wybodaeth.

# Cyflwyniad

Ombwdsmon
Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES



Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion am:

- wasanaethau cyhoeddus - mae'r rhain yn wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan sefydliad sy'n rhan o'r Llywodraeth



- cynghorion lleol - mae'r rhain yn bobl sydd wedi'u dewis i redeg cyngor



- cyrff cyhoeddus - mae'r rhain yn sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd. Maent yn cael arian gan y llywodraeth ond nid ydynt yn rhan ohoni.




Dyma fersiwn Hawdd ei darllen o'n hadroddiad blynyddol. Mae'n egluro'r gwaith rydym wedi'i wneud yn y flwyddyn 2020 i 2021.

# Amdanom ni




Rydym yn gwneud 3 prif beth:


1. Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.



2. Rydym yn ymchwilio i gwynion yn erbyn rhywun sydd wedi cael eu dewis i redeg cyngor.



3. Rydym yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus.




Rydym yn annibynnol ac mae'n gwasanaethau ar gael yn rhad ac am ddim.

# Ein 3 Nod




Ein nod yw:

- Ymchwilio i gwynion pob yn gyflym, mewn ffordd deg



- Annog pobl i ddysgu o bethau sy'n mynd o'u lle, fel bod gwasanaethau yn gwella




- Edrych ar ôl ein harian yn gywir fel y gall ein sefydliad barhau i'r dyfodol.

# Delio â Chwynion





Eleni gwnaethom ddelio â dros 2,400 o gwynion.

O gymharu â'r llynedd, rydym wedi gweld:



- Llai o gwynion am wasanaethau cyhoeddus
- Llai o gwynion am Fyrddau Iechyd
- Llawer mwy o gwynion am gynghorwyr lleol a allai fod wedi gwneud rhywbeth o'i le.



Eleni, roedd tua hanner y bobl yn hapus â'r wasanaeth a gawsant gennym ni. Mae hyn yn llai o bobl na'r llynedd.



Ond, eleni roedd bron pawb yn hapus â chanlyniad eu cwyn.

# Cwynion am wasanaethau cyhoeddus




Eleni cawsom bron i 1,900 o gwynion newydd am wasanaethau cyhoeddus.

## Am beth oedd y cwynion?



Allan o pob 100 o gwynion:

- Roedd 39 am wasanaethau iechyd



- Roedd 13 am dai




- Roedd 12 am sut y mae gwasanaeth yn delio â chwynion



- Roedd 9 am wasanaethau cymdeithasol



- Roedd 7 am sut mae cynghorau yn rhoi caniatâd i adeiladu rhywbeth



- Roedd 3 am **COVID-19** Mae **COVID-19** hefyd yn cael ei alw yn Coronafeirws. Mae'n salwch sy'n lledaenu o amgylch y byd.  Gall effeithio ar eich ysgyfaint a'ch anadl.



- Roedd 17 am rywbeth arall.

# Am bwy oedd y cwynion?

Allan o pob 100 o gwynion:



- Roedd 43 am wasanaeth y GIG



- Roedd 42 am gyngor lleol



- Roedd 9 am gymdeithas dai

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Roedd 3 am Lywodraeth Cymru



- Roedd 1 am gyngor lleol



- Roedd 2 am rywbeth arall.

# Cwynion am bobl sydd wedi cael eu hethol



Eleni cawsom dros 500 o gwynion newydd am rywun sydd wedi cael eu dewis i redeg cyngor neu sefydliad.

O’r rhain, gwnaethom benderfynu ymchwilio i ychydig dros 300 ohonynt.

Allan o bob 100 o gwynion am berson sydd wedi cael ei ddewis i redeg rhywbeth:



- Roedd 54 am rywun sy’n gynghorydd ar gyngor tref neu gyngor lleol



- Roedd 49 am rywun sy’n gynghorydd ar gyngor sir



- Roedd 2 am rywun sydd wedi cael eu hethol i fod ar Fwrdd Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân.

# Am beth oedd y cwynion?

Allan o bob 100 o gwynion am berson sydd wedi cael ei ddewis i redeg rhywbeth:



- Roedd 55 am beidio â thrin pobl yn deg â pharch




- Roedd 19 am nad oeddent wedi gwneud pethau  yn y ffordd iawn




- Roedd 14 am nad oeddent wedi dweud y gallai eu gwaith fel cynghorydd effeithio ar eu busnes eu hunain



- Roedd 8 am nad oeddent wedi dilyn y gyfraith

# Cyflawni pethau yn brydlon



Ein nod yw delio â chwynion yn gyflym.



Ond mae'n rhaid i ni ddelio â sefydliadau eraill pan rydym yn edrych i gwynion.



Mae eleni wedi bod yn flwyddyn anodd iawn oherwydd COVID-19.

Nid yw llawer o sefydliadau wedi gallu gweithio gyda ni yn gyflym i ddelio â chwynion.



Mae wedi cymryd mwy o amser nag yr oeddem wedi ei ddisgwyl i ymchwilio i sawl cwyn.



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ei bod yn hawdd cysylltu â ni.

# Helpu gwasanaethau i wella



Eleni rydym wedi:

- Helpu cynghorau lleol a byrddau iechyd i ddeall sut i ddelio â chwynion mewn ffordd dda



- Rhoi dros 90 o sesiynau hyfforddiant ar-lein



- Helpu i greu ffordd dda i wasanaethau cyhoeddus roi gwybodaeth am gwynion



- Dechrau edrych i mewn i broblem digartrefedd a thai.

# Rhannu gwybodaeth


Eleni rydym wedi ysgrifennu:




- 6 adroddiad am pam mae pobl wedi bod yn cwyno am bethau penodol



- Adroddiad ar sut i roi gwasanaeth da



- Llyfr am sut i fod yn deg â phobl a sicrhau eu bod yn cael y pethau y dylent eu cael



- Gwnaethom siarad â byrddau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

# Gofalu am ein harian yn gywir



Rydym yn defnyddio'r rhan fwyaf o'n harian i dalu ein staff.

Mae'n bwysig ein bod yn rheoli ein staff yn briodol, fel eu bod yn gweithio yn dda.



Eleni:

- roedd llai o'n staff i ffwrdd yn sâl



- mae bwlch llai rhwng y swm y mae dynion a menywod yn cael eu talu



- cafodd y mwyafrif o staff rywfaint o hyfforddiant.

# Gofalu am yr amgylchedd



Eleni:

- gwnaethom leihau swm ein gwastraff



- nid aeth dim o'n gwastraff i safleoedd tirlenwi - mae’r rhain yn dyllau mawr yn y ddaear ar gyfer sbwriel nad ydych yn gallu ei ailgylchu



- gwnaethom leihau faint o drydan rydym yn ei ddefnyddio



- gwnaethom leihau faint o deithiau car a wnaed gan ein staff.

# Am fwy o wybodaeth



Ffôn: **0300 790 0203**



E-bost:
holwch@ombwdsmon.
cymru.org.uk




Gwefan
www.ombwdsmon.cymru




Post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**